



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) Gorllewin Cymru a'r Cymoedd Rhaglen 2014-2020

Adroddiad Gweithredu Blynyddol 2017 - Crynodeb



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Datblygu
Rhanbarthol Ewrop
European Regional
Development Fund**

1. Cyflwyniad

Dyma grynodeb o drydydd Adroddiad Gweithredu Blynyddol Rhaglen Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, ar gyfer y flwyddyn adrodd 2017.

Trosolwg


Mae Cymru'n elwa ar oddeutu €2.4 biliwn o gronfeydd yr UE drwy bedair rhaglen Cronfeydd Strwythurol 2014-2020. Mae hyn yn cynnwys oddeutu €1.2 biliwn drwy raglen ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd i helpu i gyflawni twf economaidd drwy hyrwyddo lefelau uchel o gyflogaeth gynaliadwy gan ddatblygu gweithlu medrus ac ymatebol heddiw ac i'r dyfodol.

Awdurdod Rheoli'r Rhaglen yw Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), o fewn Llywodraeth Cymru.

Ynghylch y Rhaglen

Mae rhaglen ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn canolbwyntio ar fuddsoddiadau sy'n gallu helpu i greu swyddi cynaliadwy a thwf economaidd, gan ganolbwyntio adnoddau mewn ardaloedd lle cânt yr effaith fwyaf.

Drwy gyflawni ei hamcanion, mae'r rhaglen yn ystyried ac yn cynnwys cyfleoedd cymdeithasol ac amgylcheddol, gan adlewyrchu'n llawn brif egwyddor drefniadol Llywodraeth Cymru, sef Datblygu Cynaliadwy.



Meysydd blaenoriaeth y Rhaglen:

Blaenoriaeth 1: Ymchwilio ac Arloesedd

- Gwella llwyddiant sefydliadau ymchwil yng Nghymru yn denu cyllid ymchwil cystadleuol a phreifat.
- Cynyddu masnacheiddio Ymchwil, Datblygu ac Arloesedd gan fusnesau Cymru o fewn maes y rhaglen.

Blaenoriaeth 2: Cystadleurwydd BBaCh

- Ymdrin â methiannau'r farchnad wrth ddarparu cyllid benthyg ac ecwiti i BBaCHau, gan gynnwys cyfalaf risg.
- Cynyddu nifer y BBaChau sy'n goroesi, yn enwedig BBaChau twf uchel (gan gynnwys Mentrau Cymdeithasol).
- Cynyddu twf cyflogaeth mewn BBaChau sydd â photensial i dyfu drwy ymdrin â rhwystrau mewn cyfnodau allweddol o'r twf.
- Cynyddu'r nifer y BBaChau sy'n defnyddio ac yn manteisio ar fand eang cyflym iawn a gwibgyswllt yng Nghymru

•Blaenoriaeth 3: Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni

- Cynyddu nifer y cynlluniau ynni adnewyddadwy bach sy'n fasnachol hyfyw.
- Cyfrannu at ddatblygu sector ynni'r môr.
- Gwella effeithlonrwydd ynni'r cartrefi hynny sy'n wynebu'r lefelau uchaf o dlodi tanwydd.

Blaenoriaeth 4: Cysylltedd a Datblygu Trefol

- Gwella cysylltedd drwy fynd i'r afael â mannau tagfeydd penodol sy'n effeithio ar yr A40 a'r A55.
- Gwella mynediad at brif ganolfannau trefol a chanolfannau gwaith drwy drafnidiaeth gyhoeddus.
- Cwblhau rhwydweithiau band eang TGCh cyflym iawn.
- Cynyddu cyflogaeth leol drwy fuddsoddiadau seilwaith trefol wedi eu targedu'n ofalus.

Blaenoriaeth 5: Cymorth Technegol


- Sicrhau bod y Rhaglen yn cael ei rheoli'n effeithlon ac effeithiol.
- Rhoi cyngor o safon uchel i bartneriaid allweddol sy'n ymwneud â chynllunio a darparu prosiectau.
- Gwella integreiddio a chyfatebolrwydd buddsoddiadau gyda chronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd eraill a rhaglenni ehangach dan arweiniad y Comisiwn Ewropeaidd a rhaglenni wedi eu seilio ar y Sector.

Cyllideb a oedd ar gael ar gyfer pob un o Flaenoriaethau'r Rhaglen:

Blaenoriaeth	Cyllideb yr UE	Cyfanswm y Gyllideb ¹
Blaenoriaeth 1: Ymchwil ac Arloesedd	€302 miliwn	€455 miliwn
Blaenoriaeth 2: Cystadleurwydd BBaCh	€208 miliwn	€333 miliwn
Blaenoriaeth 3: Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni	€171 miliwn	€246 miliwn
Blaenoriaeth 4: Cysylltedd a Datblygu Trefol	€501 miliwn	€763 miliwn
Blaenoriaeth 5: Cymorth Technegol	€24 miliwn	€32 miliwn
Cyfanswm a oedd ar gael o fewn y Rhaglen	€1,206 miliwn	€1,829 miliwn

¹ Swm Cyllideb yr UE wedi ei gyfuno ag arian cyfatebol

Rhanbarthau Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru ar gyfer 2014-2020



2. Cynnydd y Rhaglen

Trosolwg

Erbyn diwedd 2017, roedd Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi €786 miliwn o gronfeydd yr UE mewn 65 o brosiectau, yn arwain at gyfanswm o €1,466 miliwn o fuddsoddiad yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.

Gwnaethpwyd cynnydd sylweddol mewn nifer o ddangosyddion y Rhaglen yn ystod 2017, gan gynnwys:


- Cefnogwyd dros 2,300 o fusnesau a chafodd dros 2,500 o swyddi eu creu.
- Cynhyrchwyd £18 miliwn o incwm ymchwil drwy brosiectau'r UE.
- Buddsoddodd Cronfa Fusnes Cymru £33 miliwn mewn BBaChau yng Nghymru drwy Fanc Datblygu Cymru.
- Cafodd 42,300 o safleoedd ychwanegol fand eang 30 Mbps a mwy, a chafodd dros 68,700 o bobl ychwanegol wibgyswllt band eang 100Mbps a mwy.

Ceir adroddiad am y cynnydd o'i gymharu â nifer o ddangosyddion Rhaglenni eraill, er enghraifft tir a ddatblygwyd neu safleoedd a godwyd neu a adnewyddwyd, yn hwyrach yn y cyfnod rhaglennu oherwydd natur y gweithgaredd a ariennir drwy'r Rhaglen hon.

Cynnydd Ariannol

Mae'r siart yn dangos, ar lefel Flaenoriaeth, cyfanswm dyraniad cronfeydd yr UE, a faint o arian a fuddsoddwyd mewn prosiectau ac a wariwyd gan brosiectau.

Siart 1: Cronfeydd yr UE: Cyllideb, wedi ei Chymeradwyo a'i Gwario



3. Cynnydd fesul Blaenoriaeth

Blaenoriaeth 1: Ymchwil ac Arloesedd



Mae buddsoddi mewn ymchwil ac arloesedd yn helpu i hybu cynhyrchiant a chystadleurwydd Cymru yn y byd. Mae cronfeydd yr UE yn cefnogi datblygu capasiti ymchwil o safon fyd-eang yng Nghymru, gan adeiladu ar gryfderau presennol i ddenu mwy o gyllid ymchwil preifat a chystadleuol. Mae cronfeydd yr UE hefyd yn cefnogi busnesau i ddatblygu, profi a lansio cynhyrchion masnachol newydd a gwell, prosesau a gwasanaethau, yn cynnwys y rhai hynny sy'n rhai carbon isel.

Erbyn diwedd y flwyddyn, buddsoddwyd 81% (£246 miliwn) o gronfeydd yr UE a oedd ar gael o fewn y Flaenoriaeth hon, mewn 20 o brosiectau. Roedd hyn yn cynnwys y prosiect cyntaf i'w gymeradwyo, 'SMARTAQUA', a gyflwynwyd yn sgil galwad cyllid WEFO yn 2016 am gynigion arloesol i droi ymchwil ac arloesedd yn gynnyrch masnachol newydd a gwell, ac yn brosesau a gwasanaethau.

Bydd WEFO yn gwneud penderfyniadau ynghylch cymeradwyo gweddill y cynigion a gyflwynwyd yn sgil yr alwad hon yn 2018. Gan fod y galw uchel am gyllid Ymchwil ac Arloesedd yn parhau, lansiwyd galwad arall ym mis Rhagfyr, yn canolbwyntio ar 'cyflymu cydweithredu o safon ryngwladol mewn ymchwil ac arloesi' ac mae wedi ennyn diddordeb sylweddol.

Astudiaeth Achos: SMART CYMRU

Mae cynllun SMART Cymru Llywodraeth Cymru yn cynnig cymorth ariannol i fusnesau ar gyfer datblygu, gweithredu a masnacheiddio cynhyrchion, prosesau a gwasanaethau newydd.

Gyda chymorth o £27 miliwn o gronfeydd yr UE, mae'r cynllun yn cefnogi mentrau Ymchwil a Datblygu yn cynnwys meysydd ymchwil diwydiannol, ymarferoldeb technegol a masnachol, datblygu arbrofol, ecsbloetiaeth ac arloesi agored.

Mae'r cynhyrchwr arbenigol Markes International, a leolir yn Llantrisant, ar ei ennill oherwydd SMART Cymru a fu'n ei gefnogi i ddatblygu'r gyfres o gynhyrchion newydd HiSorb™ sydd yn echdynnu cemegau organig o hylifau a soledau drwy amsugniad capasiti uchel.

Dywedodd Rheolwr Cynnyrch HiSorb: "Mae gan HiSorb sawl defnydd amrywiol, ond ar hyn o bryd rydym yn canolbwyntio'n bennaf ar broffil diodydd, bwydydd, a chynnyrch persawr.

"I'r perwyl hwn, rydym ni eisoes wedi gweithredu nifer o ddefnyddiau heriol yn y byd go iawn yn cynnwys dadansoddi cyfansoddion blas mewn coffi, wisgi a llaeth."

Blaenoriaeth 2: Cystadleurwydd BBaCh



Mae cefnogi'r gwaith o sefydlu a thyfu busnesau yn helpu i adeiladau economi gref a chystadleuol yng Nghymru. Mae cronfeydd yr UE yn darparu arian a chymorth i helpu busnesau newydd, ac yn cefnogi cwmnïau bach a chanolig (gan gynnwys mentrau cymdeithasol) er mwyn iddyn nhw ehangu a chael mynediad at farchnadoedd newydd, ac maen nhw hefyd yn ymdrin â diffyg yn y farchnad i ddarparu arian ad-daladwy i'r busnesau hynny. Mae cronfeydd yr UE hefyd yn helpu busnesau i wireddu'r fantais gystadleuol a geir o ddarparu band eang cyflym iawn ledled Cymru

Erbyn diwedd y flwyddyn roedd Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi 82% (€171 miliwn) o gronfeydd yr UE a oedd ar gael o fewn y Flaenoriaeth hon, mewn saith prosiect. Mae'r buddsoddiadau o fewn y Flaenoriaeth hon yn ffurfio cyfres integredig o fentrau dan arweiniad Llywodraeth Cymru, Canolfan Cydweithredol Cymru, Banc Datblygu Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, a adwaenir fel 'Teulu Busnes Cymru'.

Mae Cronfa Fusnes Cymru dan arweiniad Banc Datblygu Cymru yn perfformio'n dda ac yn gynnar yn 2018 bydd asesiad yn canfod a oes mwy o alw a phosibiliadau i ehangu darpariaeth y gronfa hon. Mae'r ddau gynllun a ddarperir gan Ganolfan Cydweithredol Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn ystyried ymestyn eu gweithredoedd a'u cwmpas i ehangu darpariaeth y gronfa hon.



Astudiaeth Achos: Cover to Cover (Busnes Cymru)


Mae gwasanaethau a ariennir gan yr UE drwy gynllun Llywodraeth Cymru, Busnes Cymru, yn cefnogi busnesau newydd a mentrau datblygu cynaliadwy ac mae hyn yn arwain at greu mwy o swyddi a thwf busnes. Un o'r nifer o fusnesau bach llwyddiannus a gefnogir gan Busnes Cymru yw Cover to Cover yn Y Mwmbwls, Abertawe.

Aeth yr entrepreneur at Busnes Cymru i gael cymorth wrth gymryd drosodd siop lyfrau a oedd wedi'i hen sefydlu yn y Mwmbwls.

Ar ôl bod mewn gweithdy dechrau busnes, lle dysgodd yr entrepreneur am y prif agweddau ar ddechrau a rhedeg busnes, cafodd y perchennog fwy o gefnogaeth gan gynghorydd Busnes Cymru a gynigiodd gyngor busnes cyffredinol yn cynnwys cadw llyfrau, cynllunio busnes, marchnata a chynllunio ariannol. Hefyd fe gafodd y perchennog gymorth gan Busnes Cymru i gael gafael ar arian ar gyfer y fenter, gan sicrhau benthyciad i gychwyn o £14,000.

O ganlyniad i'r gefnogaeth a gafodd gan Busnes Cymru, llwyddodd y perchennog i ail agor y siop yn llwyddiannus ym mis Awst 2017, ac ers hynny mae Cover to Cover wedi cyflogi dau aelod o staff. Mae'r siop wedi ehangu ac yn awr mae'n gwerthu anrhegion a chardiau cyfarch. Mae'r busnes hefyd yn trefnu digwyddiadau yn cynnwys darlleniadau, sesiynau llofnodi a gwyliau llenyddol. Hon yw'r unig siop lyfrau annibynnol yn ardal Abertawe.

Dywedodd y perchennog: "Rwyf wedi cael cefnogaeth wych gan y tîm, sydd wedi bod yn amhrisiadwy, o gynllunio cychwynnol a chynghor cyffredinol i ragamcanu arian ac wrth gwrs, cyngor ar fenthyciadau. Fe fyddwn yn llythrennol wedi cael pethau'n anodd heb y gefnogaeth hon."



Blaenoriaeth 3: Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni

Mae cronfeydd yr UE sy'n cael eu buddsoddi drwy flaenoriaeth cynyddu ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni yn helpu i leihau effaith allyriadau carbon ar yr amgylchedd ac yn trechu tldi tanwydd. Maen nhw'n helpu i ymdrin â rhwystrau i ddatblygiad cynlluniau ynni bach, gwella effeithlonrwydd ynni mewn tai lle ceir y tldi tanwydd gwaethaf, a thyfu sector ynni môr cryf a chynaliadwy yng Nghymru.

Erbyn diwedd 2017, buddsoddwyd 33% (€57 miliwn) o gronfeydd yr UE a oedd ar gael o fewn y Flaenoriaeth hon mewn wyth prosiect. Mae ynni'r môr yn parhau i fod yn rhan arloesol a heriol o'r rhaglen, ac mae WEFO yn gweithio'n agos â datblygwyr ynni'r môr i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a gynigir gan adnoddau llanw a thonau Cymru; canlyniad hyn yw bod nifer o gynigion prosiect sydd ar y gweill, yn cael eu hystyried ar gyfer cyllid yr UE.

Parhaodd cynnydd da yn 2017 hefyd gyda chynlluniau paratoi safle cefnogi ynni yn cael eu cymeradwyo, yn cynnwys astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer Parth Arddangos Sir Benfro. Galwyd am gynlluniau ynni adnewyddadwy bach yn yr haf, a chefnogwyd hyn gan weithdai i godi ymwybyddiaeth o gyllid yr UE sydd ar gael ar gyfer gweithgareddau o'r fath.



Astudiaeth Achos: Minesto - Deep Green

Gyda chymorth £10 miliwn o gronfeydd yr UE, mae'r dechnoleg ynni llanw arloesol Deep Green, ar fin cael ei gosod oddi ar arfordir Môn, gan helpu i sefydlu'r ardal yn ganolfan ragoriaeth fyd eang mewn ynni'r môr a chreu cyfleoedd gwaith newydd.

Datblygwyd y dechnoleg unigryw gan gwmni Minesto o Sweden, a sefydlodd ei bencadlys yng Nghymru oherwydd ei hadnoddau llanw rhagorol a'i sector ynni môr sydd ar gynnydd. Bydd y dechnoleg 'barcud' danddwr sy'n pwyso saith tunnell ac wedi ei gosod o leiaf pymtheg metr o dan wyneb y dŵr yn gweithredu mewn dyfroedd lle na all unrhyw dechnoleg arall berfformio mewn modd mor gost-effeithiol, ac mae hynny oherwydd ei gallu unigryw i weithio mewn ardal cyflymder isel.

Mae Minesto eisoes wedi cael trwydded forol gan Cyfoeth Naturiol Cymru i osod Deep Green yn Nyfnder Caergybi, a cheir cynlluniau i ehangu capasiti yn y dyfodol yn amodol ar drwydded. Yn ddiweddar, adeiladwyd sail goncrit bwrpasol a fydd yn cael ei roi o dan y dŵr i gynnal y gwaith o osod y ddyfais Deep Green.

Mae'r cwmni hefyd wedi creu 13 o swyddi hyd yn hyn ac mae cynlluniau i ddatblygu safle cydosod ym Môn i gynhyrchu mwy o ddyfeisiau ar gyfer eu hallforio ar draws y byd, ac yn sgil hynny creu mwy o waith a ffyniant yng Ngogledd Cymru.

Rhwng popeth, mae gan y rhaglen gyfran o oddeutu £85 miliwn o gronfeydd yr UE i hybu datblygiad y sector ynni môr yng Nghymru, sy'n cynnwys cefnogaeth i dechnolegau ynni tonnau ac ynni llanw a fydd yn cael eu rhoi ar brawf ar hyd arfordir y Gorllewin a'r Gogledd.

Mae buddsoddiadau eisoes yn cynnwys £0.26 miliwn o gronfeydd yr UE ar gyfer astudiaeth ddichonoldeb parth arddangos ynni tonnau Sir Benfro dan arweiniad WaveHub. Mae'r astudiaeth yn gam cyntaf hanfodol tuag at wireddu'r cyfle y mae Ystâd y Goron wedi ei gynnig i Orllewin Cymru drwy gytuno i roi'r safle hwn ar brydles er mwyn lleoli'r dechnoleg donnau newydd, gan helpu i gyflawni uchelgais Cymru i arwain y byd ym maes ynni'r môr.



Blaenoriaeth 4: Cysylltedd a Datblygu Trefol

Mae datblygu atebion i broblemau trafndiaeth a gwella cysylltedd digidol yn helpu busnesau a chymunedau i dyfu a ffynnu, ac yn rhoi hwb i gyflogaeth ledled Cymru. Mae cronfeydd yr UE yn mynd i'r afael â mannau tagfeydd trafndiaeth penodol, gan wella trafndiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd trefol a helpu i gwblhau rhwydweithiau digidol cyflym iawn yng Nghymru. Mae rhagor o fuddsoddi mewn seilwaith yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn cael ei anelu at ardaloedd lle caiff yr effaith fwyaf ar swyddi lleol a chefnogi cyfleoedd economaidd ehangach i roi hwb i fuddsoddi preifat.

Erbyn diwedd 2017, buddsoddwyd €290 miliwn (58% o gyfran y Flaenoriaeth) mewn 23 o brosiectau. Mae hyn yn cynnwys cymeradwyo cyllid yn 2017 i gefnogi gwelliannau i'r A40 a nifer o safleoedd ac adeiladau y rhoddwyd blaenoriaeth ranbarthol iddynt gan yr Awdurdod Lleol. Bu'r gwaith o ddatblygu'r cynigion ynghylch Metro De Cymru yn parhau. Mae'r ddarpariaeth o brosiectau band eang cyflym iawn a gwibgyswllt yn parhau ar garlam ac mae WEFO yn ystyried cynigion i gyflawni cwmpas o 100% ar draws Cymru.

Mae'r prosiect ambarél Cyrchfan Denu Twristiaeth yn mynd rhagddo'n llwyddiannus; erbyn diwedd 2017, roedd WEFO wedi cymeradwyo 8 o'r 13 o brosiectau arfaethedig, yn cynnwys canolfan ddringo Rock UK ym Merthyr Tudful a Glannau Bae Colwyn.



Astudiaeth Achos: Hyb Trafnidiaeth Port Talbot



Mae'r hyb newydd sy'n cael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru (£2.7 miliwn) a chronfeydd yr UE (£2.5 miliwn), wedi ei leoli yng nghanol Port Talbot ac mae'n canoli'r prif gysylltiadau trafnidiaeth i wella cysylltedd a rhoi hwb i dwf economaidd y gymuned leol.

Dechreuodd yr hyb weithredu yn ystod 2017, a chafwyd agoriad swyddogol ym mis Mawrth 2018.

Mae'r hyb wedi ei godi wrth ymyl gorsaf Parkway a gafodd ei hailadeiladu'n ddiweddar. Mae pobl yn ei chael hi'n haws i deithio ar draws y rhanbarth ac mae'n fwy cyfleus ar gyfer gwaith a hamdden, a bu croeso iddo gan drigolion a busnesau lleol.

Mae'r manteision i'r teithwyr yn cynnwys chwe chilfan fysiau, dangosyddion amserlenni rhyngweithiol, lloches fysiau ar y cyd i gwblhau cynllun yr orsaf, goleuadau wedi eu huwchraddio, ardaloedd caffis a mannau croesi diogel.

Mae'r hyb yn llwybr allweddol i'r henoed a phobl anabl a thrafodwyd y cynllun, sy'n hollgynhwysol drwyddo draw â grwpiau lleol. Cynlluniwyd y llwybrau troed a mannau ymgynnull drwy ystyried lled a graddiant a deunydd addas i sicrhau mynediad rhwydd. Mae gan fannau croesi cerddwyr dros briffyrdd ymyl pafin wedi ei ostwng i osgoi gorfod newid lefel.



Blaenoriaeth 5: Cymorth Technegol

Mae Cymorth Technegol yn adnodd hanfodol, a ddefnyddir gan WEFO a phartneriaid eraill, i gefnogi darpariaeth effeithiol o'r Rhaglen.

Erbyn diwedd 2017 buddsoddwyd €23 miliwn (95% o gyfran y Flaenoriaeth) o gronfeydd yr UE mewn saith prosiect. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth refeniw er mwyn i WEFO gyflawni'r rhaglen yn effeithiol, pedwar o'r Tîmau Ymgysylltu Rhanbarthol a leolir yng Ngogledd Cymru, Canolbarth Cymru, Bae Abertawe a De Ddwyrain Cymru, a chefnogaeth refeniw Corff Cyfryngol i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Llywodraeth Cymru. Efallai y bydd rhagor o fuddsoddi yn y prosiectau presennol yn 2018.



Ceir mwy o wybodaeth am Raglen yr ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ar wefan Llywodraeth Cymru [yma](#).



@wefocymru



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Datblygu
Rhanbarthol Ewrop
European Regional
Development Fund**